



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Rhagfyr 19 2017 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday December 19 2017 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Meg Roberts, Myrddin Owens, Liz Wood, Julie Hughes, Gerry Belanger

Yn bresennol/In attendance: Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau/Apologies: Mike Roberts, Helen Hughes, Dafydd Roberts, Gordon Warren, Gina Jones, John Byast, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Aled Jones.

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Neb/None

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Myrddin Owens eilio Liz Wood.
The minutes were confirmed a true record. Proposed Myrddin Owens, seconded Liz Wood.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police

Nid oes ymateb hyd yma am wybodaeth ynglyn a'r nifer o uwch swyddogion Cymraeg ond mae cais am wybodaeth wedi ei gynabod. Cafwyd wybod bydd y Comisiynydd yn bresennol yn nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor.

There is no response as yet regarding the number of Welsh speaking senior officers, but a request for information has been acknowledged. The Commissioner has confirmed his attendance to the February Council meeting.

4.2 Peiriannau Arian Parod / Cash Machines

Nodwyd mai tynnu sylw ac nid cwyn oedd ynglyn a'r peiriannau arian parod, a bod Meg Roberts wedi diolch i Gareth Roberts am ei waith i sicrhau peiriant yn Stryd Mona. Nodwyd bod angen i'r cwmni ddiweddarau eu sillafiad o gyfeiriad y peiriant ac fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu a hwy gyda'r sillafiad cywir.

It was noted that it was an observation not a complaint regarding the cash machines, and that Meg Roberts had thanked Gareth Roberts for his work to secure a cash machine at Mon Street. It was noted that the company need to update and correct their spelling of the cash machine's address and the clerk was asked to make contact advising them of the correct spelling.

4.3 Cae Chwarae Maes Llwyn Play Area

Dim diweddariad / No update

4.4 Cloc y Dref / Town Clock

Mae'n debyg bod problemau mynediad eto ond mae'r Eglwys yn ymwybodol ac yn cymryd y camau priodol. Mae Liz Wood wedi cael un pris am y peiriant awtomatig gan y cwmni sydd yn trin y cloc ar hyn o bryd. Mae disgwyl dau bris arall cyn trafod ymhellach. Diolchwyd i Gordon Warren ac i Liz Wood am eu gwaith.

It appears there are access issues again, but the Church is aware and is taking the necessary actions. Liz Wood has obtained a quote for the auto-winder from the company who currently service the clock. A further two quotes are required before further discussion. Gordon Warren and Liz Wood were thanked for their work.

4.5 Grid Cenedlaethol / National Grid

Roedd pryderon nawr bod y Fferm Arae Haul wedi cael caniatad cynllunio y byddai datblygiadau mawr eraill megis prosiect y GC a Wylfa Newydd hefyd yn cael caniatad heb ystyried barn trigolion yr ardal. Mae'n bwysig bod llais y gymuned yn cael ei glywed a'i gydnabod.

There were concerns that now that the Solar Farm had been granted planning permission, other large scale developments such as the National Grid and Wylfa Newydd will also be given approval without taking into account the views of the local residents. It is important that the community's voice is heard and acknowledged.

4.6 Craig y Don

Cafwyd wybod gan Liz Wood bod pawb ond dau o'r trigolion/tai wedi rhoi caniatad i'r cwmni gymryd sampl pridd ar gyfer yr arolwg. Mae Liz Wood wedi cynnig siarad a'r trigolion hynnu ond nid yw CSYM am ddatgelu pwy ydynt (deddf diogelu data). Deallwyd bod swyddogion CSYM wedi ymweld a'r eiddo ac wedi danfon llythyrau yno. Mae Liz Wood am gysylltu eto i weld os oes posibil ymweld ar y cyd i ddwyn perswad arnynt i gymryd rhan yn yr arolwg.

Liz Wood informed the meeting that all bar two of the residents/houses had given permission for a soil sample to be taken as part of the survey. Liz Wood has offered to speak to the remaining residents but IACC won't disclose who they are (data protection). It was understood that IACC officers had visited the properties and delivered letters. Liz Wood to contact again to see if a joint visit would be possible to persuade them to participate in the survey.

4.7 Polisi Iaith/Welsh Language Policy

Nid oes diweddariad gan y Comisiynydd hyd yma. / No update from the Commissioner as yet.

4.8 Cinio Nadolig Cymunedol / Community Christmas Dinner

Mae Julie Hughes wedi siarad ag ymddiriedolwyr y Neuadd. Gan fod cyfraniadau ariannol wedi eu cynnig tuag at logi'r Neuadd ar gyfer y cinio, ni fydd gostyngiad yn y pris. Cytuno ei fod gwerth herio'r pwyllgor i gefnogi'r prosiect. Nodwyd bod Gareth Roberts wedi cynnig cyfrannu hanner y gost o logi'r Neuadd cyn i unrhyw roddion a chyfraniadau eraill gael eu derbyn.

Julie Hughes has spoken to the Hall trustees. As financial contributions towards the cost of hiring the hall had been received in full, there will not be a reduction in price. Agreed it was worth challenging the committee to support the project. It was noted that Gareth Roberts had offered to contribute half of the hire costs before any other contributions had been received.

4.9 Mr Daniel ap Eifion Jones

Cafwyd wybod gan Myrddin Owens bod ebost wedi ei dderbyn gan y Swyddog Monitro ond ei bod wedi cam-ddeall y sefyllfa felly bydd angen cysylltu eto a disgwyl ymateb y Pwyllgor Safonau cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Myrddin Owens noted that an email has been received from the Monitoring Officer but that she had mis-understood the situation; contact is to be made again and to await the response of the Standards Committee before further action is taken.

4.10 Banc Barclays Bank

Dim diweddariad / No update.

5 Pwyllgorau a Chyrrff Allannol/External Meetings and Organisations

5.1 Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership

Cafwyd wybod bod Gareth Roberts a Myrddin Owens wedi cwrdd ag uwch swyddogion CSYM ar ran y Bartneraeth. Mae £1500 wedi ei sicrhau ar gyfer pob un o'r chwe Cyngor sydd wedi eu cynrychioli yn gyfraniad gan Horizon tuag at gostau gweinyddol ychwanegol. Bydd £500 yn cael ei dalu gan pob cyngor i gronfa ganolig tuag at gostau cynnal y grwp.

Cafwyd wybod bod swyddogion CSYM hefyd yn parhau i ddigwyl atebion i gwestiynnau a ofynnwyd i Horizon. Ni allwn drafod ac ystyried agweddau o'r prosiect heb gael y wybodaeth pethnasol yn llawn e.g. cronfa adeiladu tai, mesurau diogelu iaith, mesurau diogelwch ffordd ayyb.

Mae'n hynod bwysig bod yr ardal, a CSYM, yn cydweithio er budd y cymunedau lleol.

Gareth Roberts and Myrddin Owens have met with senior officers at IACC on behalf of the partnership. £1500 has been secured for each of the six councils, a contribution from Horizon towards increasing administrative costs. £500 is to be paid from each council into a central fund towards the running costs of the group.

It was noted that IACC officers are also still waiting on answers to questions asked of Horizon. We cannot discuss and consider aspects of the project without the relevant information in full e.g. housing fund, measures to safeguard the language, road safety measures etc.

It is essential that the area, and IACC, work together for the benefit of the local communities.

6/7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb gan Myrddin Owens o'r cyfarfod a gynhaliwyd i drafod cyllideb y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesaf a phennu'r prisedb. Dosbarthwyd copi o'r daenlen yn dangos incwm a gwariant disgwylidig y Cyngor dan pob penawd gwariant. Argymhelliant y Pwyllgor Cyllid oedd codi'r dreth 2.7% (o 60.85 i 62.50 ar gyfer band d). **Roedd yr aelodau yn cytuno'n unfrydol gyda'r argymhelliant gan gadarnhau byddai cyllideb y flwyddyn ariannol 2018/19 yn £117,131.25 ac y byddai cyflwyno archeb am £92,131.25.**

*Myrddin Owens gave a summary of the meeting held to discuss the Council's budget for the next financial year and to set the precept. A copy of the spreadsheet showing the Council's expected income and expenditure under each expenditure heading was distributed to those present. The Finance Committee's recommendation was to increase the rates by 2.7% (from 60.85-62.50 for band d). **Members were unanimous in agreement with the recommendation thus confirming that the budget for 2018/19 be £117,131.25 with the precept being £92,131.25.***

8 Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor Sir 2018/19 County Council Budget Consultation

Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei ebostio at yr aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd siom yr aelodau nad oedd amser digonol i ymateb i'r ymgynghoriad, a siom eto nad oedd y cyngorwyr sirol yn bresennol i ateb eu cwestiynnau. Nodwyd prif bryderon yr aelodau fel a ganlyn –

- Cost defnyddio swyddogion sydd wedi eu cyflogi drwy asiantaethau allanol
- Cost defnyddio ymgynghorwyr yn barhaol
- Absenoldebau staff (sydd felly yn arwain at ddefnyddio asiantaethau?)
- Oes cynydd yng nghyflogau a lwfansau aelodau etholedig ac uwch swyddogion tra bod toriadau yn gwynebu rheini sydd eisioes ar gyflogau isel?

Nid oedd yr aelodau yn teimlo bod posib ymateb yn deg erbyn y dyddiad cau heb gael gwybodaeth pellach a thrafodaeth gydag atebion i gwestiynnau.

It was confirmed that the information had been circulated to all members prior to the meeting. Disappointment was noted by the members that there was insufficient time to respond to the consultation, and further disappointment that the county councillors weren't present to answer their questions. Main concerns were noted as follows –

- *Cost of employing officers employed via external agencies*
- *Cost of permanent consultants*
- *Staff absenteeism (thus resulting in agency staff?)*
- *If there an increase in the salary and allowances of elected members and senior officers whilst those already on low wages face further cuts?*

Members felt they could not respond fully to the consultation by the closing date without further information and discussion with answers to questions.

9 Fferm Arae Haul Llanbadrig Solar Farm

Yn ei absenoldeb, roedd Gordon Warren wedi paratoi datganiad a gafodd ei ddsbarthu i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Trafodwyd ei llythyr a'r datganiad a chytuno cefnogi ei gynnwys. Yn dilyn trafodaethau pellach ar wahanol bwyntiau, cytunodd yr aelodau yn unfrydol anfon llythyr i Dr Gwynne Jones yn gofyn i'r Cyngor Sir edrych ar y broses a'r penderfyniad, a hefyd i anfon copi o'r llythyr at fudiadau perthnasol. Fe ofynnodd Meg Roberts pam fod Cyng Richard Jones wedi datgan diddordeb. Esboniodd Gareth Roberts fod Richard Jones wedi datgan diddordeb mewn cyfarfodydd blaenorol gan ei fod yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones.

In his absence Gordon Warren had prepared a statement which was distributed to all present for information. The Council discussed his letter and statement and agreed to support his content. Following further discussion on various points it was unanimously agreed to send a letter to Dr Gwynne Jones asking that the County Council look into the process and decision and to also send a copy of the letter to relevant organisations. Meg Roberts asked why Cllr Richard Jones had declared an interest. Gareth Roberts explained that Richard Jones had declared an interest at previous meetings due to being chair of the Governors at Ysgol Syr Thomas Jones.

10 Wylfa Newydd

Nodwyd bod ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cais am wybodaeth pellach. Mae'r mudiad yn cadarnhau y byddai gwastraff lefel uwch yn cael ei storio ar y safle nes byddai storfa priodol yn cael ei ddatblygu. Roedd aelodau'r Cyngor yn gwrthwynebu'n gryf y syniad o gadw gwastraff ar y safle yn hir dymor (140 mlynedd wedi diwedd cynhyrchu). Nodwyd nad oedd storfa ar gael ar hyn o bryd, a bod ymgynghoriadau yn parhau am leoliad posib yn Cumbria.

It was noted that NRW had responded to the request for further information. The organisation confirms that high level waste would be stored on site until a designated store be developed. Council members strongly object to the proposal of having high level waste on site long term (140 years post generation). It was noted that there was no storage facility at present, and that consultations were ongoing for potential sites in Cumbria.

11 Gohebiaeth/Correspondence

Dwr Cymru/Welsh Water

Cafwyd ddiweddariad gan y cwmni am y gwaith sydd yn parhau yn y dref i ddiweddarau ac uwchraddio eu system gyflenwi,. Cadarnhawyd bod yr ebost wedi ei anfon at yr holl aelodau er gwybodaeth.

An update from the company regarding the ongoing work in the town to upgrade and update the supply system. It was confirmed that the email had been circulated to all members for information.

12 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

12.1 Maes Parcio / Car Park

Nododd Gerry Belanger ei fod wedi gweld pobl yn mesur caeau am faes parcio ger y parc benses a'r ganolfan hamdden ac fe ofynnodd os oedd unrhyw ddiweddariad yn dilyn pryderon yn y cyfarfod diwethaf. Nododd Gareth Roberts ei fod gyda Myrddin Owens wedi cwrdd a a Dylan Williams ac Annwen Morgan yn CSYM ac wedi trafod y mater. Roedd wedyn wedi trafod gyda Huw Percy (priffyrdd). Nododd mai cynlluniau ar gyfer lle parcio i 50 geir ger y parc busnes sydd yn cael ei ystyried. Y gobaith yw byddai Llywodraeth Cymru yn talu 'r gost o baratoi'r cynlluniau angenrheidiol. Nid oes arian ar gael i ddatblygu'r prosiect ar hyn o bryd. Ni fyddai hyn yn effeithio ar Ion Tan y Bryn heibio'r ganolfan hamdden a'r ysgol, nac ychwaith yn peri pryder i ddyfodol ysgolion gwledig yr ardal. Petai Horizon yn datblygu maes parcio yma, byddai angen gwelliannau i'r lon tuag at Gemaes.

Gerry Belanger noted that he had seen people measuring fields for a car park by the business park and leisure centre and he asked if there was any update on the situation following concerns raised at the last meeting. Gareth Roberts noted that he with Myrddin Owens had met with Dylan Williams and Annwen Morgan at IACC and discussed the matter. He had then discussed the matter with Huw Percy (highways). He noted that it is plans for up to 50 cars by the business park that is being

considered. It was hoped that Welsh Government would pay for the plans to be prepared. There is no funding available to develop the project. This proposal would not affect Tan y Bryn Road past the leisure centre and the school, neither would it cause concern for the future of the area's rural schools. Should Horizon develop the parking facility, improvements would be required to the road towards Cemaes.

12.2 Coeden Porth Amlwch Port Tree

Nodwyd bod coeden ym Mhorth Amlwch wedi cael cryn sylw ar facebook yn ddiweddar wedi i CSYM ddatgan eu bod yn bwriadu ei dorri i lawr am resymau diogelwch. Erbyn hyn maent wedi cadarnhau bydd arolwg llawn yn cael ei gwblhau yn fuan yn y flwyddyn newydd cyn i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd. Cynnigodd Liz Wood byddai posib gwneud gerflun o'r goeden os oes wir rhaid iddi ddod i lawr.

It was noted that a tree in Amlwch Port was having quite some attention on facebook of late following the IACC's intention to fell it for safety reasons. By now, they have agreed that a full survey is to be completed in the new year before any further action is taken. Liz Wood suggested that it may be possible to make a carved statue from the trunk if the tree is indeed felled.

12.3 Goleuadau Nadolig/Christmas Lights

Cadarnhawyd canlyniadau'r gystadleuaeth goleuadau Nadolig. Diolchwyd i'r Pwyllgor am feirniadu'r ymgeiswyr. Gobeithio bydd y gystadleuaeth yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn gyda mwy yn ymgymryd a'r sialens.

The results of the Christmas Lights Competition were confirmed. The committee were thanked for judging the entries. It is hoped that the competition will now grow from year to year with more people taking on the challenge.

Tai/Residential

- 1 – E Owen & H Smith (3-4 Ger yr Eglwys)
- 2 – I Roberts (10 Maes Madyn)
- 3 – L Gardner (59 Mona Street)

Busnesau/Businesses

- 1 – Y Crystyn Aur
- 2 – Kings Head
- 3 – Hair Parlour

13 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Ionawr 23 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday January 23 2018 at 7pm in the Council Chamber.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a dymuno'r gorau i bawb am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

The Chair thanked the members for their support over the last year and wished everyone all the best for Christmas and the new year.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20 / *The meeting closed at 20.20.*

Arwyddwyd / Signed:

Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd / Chair)